
Arolygiaeth Gofal
**Cymru**
Care Inspectorate
**Wales**

# Sut i gwblhau eich Datganiad Blynyddol



# Cyn i chi ddechrau ...

**Mae rhai pethau pwysig iawn y mae angen i chi fod yn ymwybodol ohonynt cyn i chi gwblhau eich Datganiad Blynyddol:**

- Rhaid i chi sicrhau nad yw eich Datganiad Blynyddol wedi'i gwblhau yn cynnwys unrhyw wybodaeth y mae modd adnabod unigolion ohoni nac iaith ymfflamychol, cyn ei gyflwyno.

- Dylai darparwyr gwasanaethau ystyried eu cyfrifoldebau cyfreithiol eu hunain o ran deddfwriaeth diogelu data a “phrosesu” data personol.

- I'w gwneud yn haws i chi, rydym wedi datblygu gwiriwr cynnwys newydd sy'n eich galluogi i wirio nad yw eich gwybodaeth yn cynnwys manylion y mae modd adnabod unigolion ohonynt neu iaith ymfflamychol. Gallwch ddefnyddio'r gwiriwr cynnwys ar unrhyw adeg yn ystod y broses gyflwyno. Fel gwiriad terfynol, bydd AGC hefyd yn edrych ar eich cynnwys ar ôl i chi gyflwyno eich datganiad. Os bydd eich datganiad yn cynnwys unrhyw wybodaeth y mae modd adnabod unigolion ohoni neu iaith ymfflamychol, gofynnir i chi ddileu'r wybodaeth/iaith hon o'ch Datganiad Blynyddol a'i ailgyflwyno.

- Rhaid i chi gyflwyno eich Datganiad Blynyddol erbyn hanner nos ar 26 Mai. Mae'n ofyniad cyfreithiol.

# Help a chymorth

Ochr yn ochr â'r canllawiau hyn, mae mathau eraill o help a chymorth ar gael i'ch cynorthwyo i gwblhau eich Datganiad Blynyddol:

Cyflwynwch gwestiwn ar-lein




Cliciwch ar y symbol ? wrth ymyl cwestiwn i gael gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn y dylech ei gynnwys

Gwyliwch ein fideo cyfarwyddiadau

Darllenwch ein cwestiynau cyffredin

# Dechrau arni

## Cam 1

Ewch i arlein.arolygiaethgofal.cymru


Cliciwch **Mewngofnodi**

Nodwch eich cyfeiriad e-bost a'ch cyfrinair i gael mynediad i'ch cyfrif ar-lein





## Cam 2

Cliciwch **Agor y Datganiad Blynyddol**





## Cam 3

Cliciwch **Golygu**





## Cam 4

*Byddwch nawr yn gweld hafan eich Datganiad Blynyddol*



# Ymgyfarwyddo â hafan eich Datganiad Blynyddol




Eich prif ddewislen

Gallwch gael gafael ar amrywiaeth o gymorth a chanllawiau neu gysylltu â ni'n uniongyrchol yma

Yn dangos % y Datganiad Blynyddol sydd wedi'i gwblhau


Gallwch ddefnyddio'r gwiriwr cynnwys ar unrhyw adeg wrth gwblhau eich Datganiad Blynyddol

# Proffil y Darparwr

## Cam 5


Bydd y rhan fwyaf o'r adran hon wedi'i llenwi ymlaen llaw ar eich cyfer, ond gwnewch yn siŵr bod y wybodaeth yn gywir.

Ewch drwy bob cwestiwn yn ofalus.




## Cam 6


Os yw'r ateb yn gywir, cliciwch ✓



## Cam 7

Os NAD yw'r ateb yn gywir, cliciwch ✗


Pan fyddwch yn clicio ✗ gofynnir i chi ddiweddaru eich manylion



## Cam 8

Mae angen i chi symud ymlaen nawr i'r adran hyfforddiant a chynllunio gweithlu

Cliciwch y symbol + er mwyn agor yr adran hon



# Hyfforddiant a Chynllunio'r Gweithlu


## Cam 9

Cwblhewch bob un o'r adrannau hyn



## Cam 10

Os na fyddwch yn deall cwestiwn, cliciwch y symbol ? er mwyn cael eglurhad byr





## Cam 11

Unwaith y byddwch yn fodlon ar bob un o'ch atebion

Cliciwch

Cadw'r Adran





## Cam 12

Cliciwch

Nesaf

ter mwyn mynd i'r adran nesaf




Bydd pob un o'ch gwasanaethau wedi'u rhestru yma. Rhaid i chi gwblhau'r wybodaeth ar gyfer pob gwasanaeth cyn i chi gyflwyno eich Datganiad Blynyddol

## Cam 13

Cliciwch


**Golygu**

i ddechrau arni




Mae pob gwasanaeth wedi'i rannu'n bedair adran:

- Proffil y Gwasanaeth
- Gwasanaethau a ddarperir
- Eich Staff
- Datganiad y gwasanaeth




Mae cwymplen ar gyfer pob adran

# Proffil y gwasanaeth

## Cam 14

Cliciwch y symbol + er mwyn gweld a chwblhau pob adran




Cofiwch, os nad yw ateb sydd wedi'i lenwi ymlaen llaw yn gywir, cliciwch ✗

## Cam 15


Unwaith y byddwch yn fodlon ar bob un o'ch atebion, gallwch

Glicio

**Cadw a Chau**

neu

**Cadw a Nesaf**



Os byddwch am fynd ymlaen i'r adran nesaf

**Cyn i chi gyflwyno eich datganiad blynyddol, mae'n rhaid i chi gwblhau GWIRIAD CYNNWYS terfynol**


# Gwiriwr cynnwys

## Cam 16

Cliciwch

**Gwiriad Cynnwys**


ti ddechrau arni




## Cam 17


Darllenwch y cyfarwyddiadau yn ofalus, yna cliciwch

**Rhedeg y gwiriad cynnwys**





*Nawr, bydd y system yn defnyddio cyfleuster deallusrwydd artiffisial i edrych am wybodaeth bersonol neu iaith ymfflamychol / sarhaus*

Os bydd eich datganiad blynyddol yn cynnwys unrhyw wybodaeth bersonol neu iaith ymfflamychol / sarhaus, bydd ffenestr naid yn ymddangos a fydd yn edrych fel hyn.



## Cam 18

Bydd angen i chi ddychwelyd i'r wybodaeth yn eich Datganiad Blynyddol er mwyn dileu'r cynnwys hwn.




Dylech barhau i redeg y gwiriwr cynnwys hyd nes na fydd ein cyfleuster deallusrwydd artiffisial yn nodi unrhyw broblemau.

# Datgan a chyflwyno

## Cam 19

Cliciwch

**Datgan a Chyflwyno**





## Cam 20

Gallwch lawrlwytho copi PDF o'ch Datganiad Blynyddol cyn i chi ei gyflwyno.


Cliciwch

**Lawrlwytho copi o'r Datganiad Blynyddol**





## Cam 21

Os ydych yn fodlon bod y wybodaeth rydych wedi'i darparu yn wir ac yn gywir, ticiwch y blwch hwn ...




## Cam 22


Os ydych yn fodlon nad yw'r wybodaeth rydych wedi'i darparu yn cynnwys iaith ymfflamychol, data personol na gwybodaeth y gellid adnabod unigolyn ohoni, ticiwch y blwch hwn.




Yna, cliciwch **Cynnig**

# Da iawn - rydych bellach wedi cwblhau eich Datganiad Blynyddol

Byddwch yn derbyn e-bost i gadarnhau eich bod wedi cwblhau eich Datganiad Blynyddol. Cadwch yr e-bost rhag ofn y bydd angen i chi gysylltu â ni am eich datganiad.



| | |
|---|---|
| **Math o Gyflwyniad:** Datganiad Blynyddol 2023/2024<br>**Ar Gyfer:** Cardiff Provider<br>**Eich Rhif Cyfeirnod:** OTRAN-00012848-HVJC | **Submission Type:** Annual Return 2023/2024<br>**For:** Cardiff Provider<br>**Your Reference Number:** OTRAN-00012848-HVJC |
| Diolch am gyflwyno eich gwybodaeth ar-lein i Arolygiaeth Gofal Cymru.<br><br>Os bydd angen gwybodaeth ychwanegol, byddwn yn cysylltu â'r person perthnasol.<br><br>Peidiwch ag ymateb i'r e-bost hwn gan ei fod wedi cael ei anfon o flwch negeseuon nad yw'n cael ei fonitro.<br><br>Os bydd gennych unrhyw ymholiadau, ffoniwch ni ar 0300 790 0126 neu e-bostiwch agc@llyw.cymru. Mae ein tîm ar gael i helpu rhwng 09:00 a 17:00 o ddydd Llun i ddydd Iau a rhwng 09:00 a 16:30 ar ddydd Gwener.<br><br>Gallwch ddefnyddio eich cyfrif AGC Ar-lein yma i gyflwyno gwybodaeth newydd ac i weld gwybodaeth a gyflwynwyd yn flaenorol.<br><br>Yn gywir<br><br>Arolygiaeth Gofal Cymru | Thank you for your online submission to Care Inspectorate Wales.<br><br>If additional information is required to support the submission we will contact the relevant person.<br><br>Please do not reply to this email as it is sent from an unmonitored mailbox.<br><br>If you have any queries, please telephone us on 0300 790 0126 or e-mail ciw@gov.wales. Our team is available to help between 09:00 and 17:00 Monday to Thursday and 09:00 to 16:30 on Friday.<br><br>You can access your CIW Online account here to submit new information and view previously submitted information.<br><br>Yours sincerely<br><br>Care Inspectorate Wales |

Arolygiaeth Gofal
Cymru